



Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through Voluntary Action

DenbighshireVolunteers.net



GwirfoddolwyrSirDdinbych.net



Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Polisi Cwcis

Mae rhai gwefannau'n storio ychydig o ddata ar eich cyfrifiadur o'r enw 'cwcis' i gofio eich bod chi wedi ymweld â'r wefan o'r blaen. Maent hefyd yn eich galluogi chi i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn haws. Canfyddwch sut y medrwyd chi reoli pa gwcis sy'n cael eu storio ar eich cyfrifiadur, os o gwbl.

Beth yw cwci

'Cwci' yw swm bach o ddata a anfonir i'ch cyfrifiadur neu eich ffôn symudol chi o wefan. Mae hyn yn golygu y gall y wefan adnabod eich dyfais chi (eich cyfrifiadur neu eich ffôn symudol) os ydych chi'n mynd yn ôl i'r un wefan. Yn aml mae cwci yn cynnwys rhif adnabod unigryw, sef rhif a gynhyrchir ar hap. Mae hwn yn cael ei storio ar yrrwr caled eich dyfais. Mae llawer o'r cwci hyn yn cael eu dileu yn awtomatig ar ôl i chi orffen defnyddio gwefan. Nid rhaglenni yw cwci ac nid ydynt yn casglu gwybodaeth o'ch cyfrifiadur chi.

Pam mae rhai gwefannau yn defnyddio cwci?

Mae gwefannau'n defnyddio cwci am nifer o resymau. Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin:

Deall beth mae'r rhai sy'n ymweld â'r wefan eisiau ei ddefnyddio ac nad ydynt yn ei ddefnyddio. Defnyddir cwci i weld faint o bobl sy'n edrych ar wedudalennau penodol. Gall hyn helpu sefydliadau i wneud eu gwefannau'n fwy defnyddiol.

Cofio eich dewisiadau wrth edrych ar wybodaeth neu ddefnyddio gwasanaeth. Gall cwci ganiatáu gwefannau i wella'r gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn a rhoi'r hyn nad yw'n cael ei ddefnyddio yn yr archif. Er enghraifft, fe allech chi deilwra hafan gwefan newyddion i ddangos newyddion am bynciau mae gennych chi ddiddordeb ynddynt yn unig. Byddai'r cwci yn 'cofio' hyn a byddai'r wefan yn cyflwyno'r wybodaeth rydych chi am ei weld y tro nesa rydych chi'n mynd yn ôl ato.

Eich galluogi chi i gwblhau tasg heb fewnbynnu gwybodaeth rydych chi wedi'i rhoi eisoes eto. Mae rhai gwasanaethau angen i chi storio cwci yn eich cyfrifiadur er mwyn iddynt weithio. Rheoli pa hysbysebion rydych chi'n eu gweld ar rai gwefannau.

At ba ddiben y defnyddir cwci gan wefan Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych?

Rydym ni'n defnyddio'r cwci am y rhesymau a restrir isod – maent oll yn bwysig i'r ffordd mae'r wefan yn gweithio ac nid oes yr un ohonynt yn casglu data personol.

- Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn defnyddio templed 'Wix Website Builder' i olygu ein gwefan. Mae gwefannau Wix yn defnyddio'r

Canolfan Naylor Leyland, Naylor Leyland Centre
Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Well Street, Ruthin, Sir Ddinbych, LL15 1AF Denbighshire, LL15 1AF
Ffôn/Tel: 01824 702441 e.bost/e.mail: office@dvsc.co.uk gwefan/website www.dvsc.co.uk



ddau fath o gwci isod:

- Cwcis sesiwn (dros dro): mae'r cwcis hyn yn cael eu dileu pan fyddwch chi'n cau eich porwr, ac nid ydynt yn casglu gwybodaeth o'ch cyfrifiadur chi. Yn nodweddiadol maent yn storio gwybodaeth ar ffurf adnabod sesiwn nad yw'n ond nid yw'n adnabod y defnyddiwr yn bersonol.
- Cwcis parhaol (wedi'u storio): mae'r cwcis hyn yn cael eu stori ar eich gyrrwr caled nes eu bod yn darfod (h.y. ar sail dyddiad darfod penodol) neu nes eich bod chi'n eu dileu. Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am y defnyddiwr, megis eu arferio pori'r we neu eu dewisiadau defnyddiwr o ran gwefan benodol.

Mae rhestr lawn y cwcis hyn i'w gweld isod:

Cookie name	Rhychwant bywyd	Pwrpas
svSession BI	Parhaol	Creu gweithgareddau a
hs	Sesiwn	Diogelwch
incap_ses_\${Proxy-ID}_\${Site-ID}	Sesiwn	Diogelwch
incap_visid_\${Proxy-ID}_\${Site-ID}	Sesiwn	Diogelwch
nibi_{ID}	Cwci parhaus	Diogelwch
XSRF-TOKEN	Cwci parhaus	Diogelwch

- Mae gwefan Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn defnyddio ystadegau cyfrif W3 i fonitro nifer yr ymwelwyr. Er mwyn defnyddio'r gwasanaeth, mae "Script" wedi'i wreiddio yng nghod HTML pob gwedudalen ar ein gwefan. Gall y "Script" storio cwcis ar gyfrifiaduron a ddefnyddir gan y rhai sy'n ymweld â'n gwefan. Mae'r cwcis hyn yn cynnwys gwerthoedd sy'n caniatáu i'r gwasanaethau ganfod a yw'r ymwelydd yn un sy'n dychwelyd neu'n



Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir
Ddinbych
Creu Cymunedau Cryf trwy Weithredu
Gwirfoddol
Denbighshire Voluntary Services Council
Building Resilient Communities through
Voluntary Action

DenbighshireVolunteers.net



GwirfoddolwyrSirDdinbych.net



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**

ymwelydd am y tro cyntaf a phryd y gwnaeth yr ymwelydd edrych ar y wedudalen(nau) ddiwethaf.

Sut i reoli eich cwcis

Anfonir cwcis i'ch porwr gan wefan, ac yna eu storio yn y cyfeirlyfr cwcis yn eich cyfrifiadur. Gallai eich porwr fod yn Internet Explorer, Google Chrome, Firefox, Safari neu unrhyw borwr arall. Er mwyn gwirio ac uwchraddio eich gosodiadau cwcis, bydd angen i chi wybod pa borwr rydych chi'n ei ddefnyddio a pha fersiwn. Fel arfer medrwch ganfod hyn trwy agor y porwr (fel rydych chi'n ei wneud i ddefnyddio'r rhyngwyd), yna clicio ar 'Help' ac yna 'About'. Bydd hyn yn rhoi manylion am fersiwn y porwr rydych chi'n ei ddefnyddio.

Os ydych chi'n dymuno gwybod sut i rwystro cwcis dilynwch y ddolen hon a dewiswch y porwr rydych chi'n ei ddefnyddio. Medrwch ddarllen cyfleuster help neu wybodaeth help ar-lein eich porwr chi i gael rhagor o wybodaeth. Os ydych chi'n gwneud hyn dylech fod yn ymwybodol na fydd rhai nodweddion penodol y wefan hon yn gweithio. Os hoffech gael gwybodaeth sut i wrthod cwcis ar borwr eich ffôn symudol, edrychwch ar lawlyfr eich ffôn.

Canolfan Naylor Leyland, Naylor Leyland Centre
Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Well Street, Ruthin, Sir Ddinbych, LL15 1AF Denbighshire, LL15 1AF
Ffôn/Tel: 01824 702441 e.bost/e.mail: office@dvsc.co.uk gwefan/website www.dvsc.co.uk

NEWVOL – Cwmni cyfyngedig drwy warant / Company limited by guarantee 3132487 Elusen Gofrestredig / Registered Charity 1054322